**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 No. 322

# Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012

## RHAN B

## APELAU ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG A HAWLIADAU ANABLEDD

### Paratoi achos cyn y gwrandawiad

*Gwrandawiadau a phenderfyniadau*

**Penderfyniad y panel tribiwnlys**

**55.**—(1) At y diben o gyrraedd ei benderfyniad rhaid i'r panel tribiwnlys, ac at y diben o drafod mater gweithdrefnol caiff y panel tribiwnlys, er gwaethaf unrhyw beth a gynhwysir yn y Rheoliadau hyn, orchymyn i bob person adael yr eisteddiad o'r panel tribiwnlys ac eithrio aelodau'r panel tribiwnlys ac unrhyw rai o'r personau a grybwyllir yn rheoliad 43(4)(c) i (dd), neu, fel y mynno'u priod ddyletswyddau, rheoliad 43(4)(e) ac (f).

(2) Caiff y panel tribiwnlys wneud penderfyniad drwy fwyafrif, a phan gyfansoddir y panel tribiwnlys o ddau aelod o dan reoliad 45(5) bydd gan y Cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw.

(3) Ceir naill ai roi penderfyniad y panel tribiwnlys ar lafar ar ddiwedd y gwrandawiad neu ohirio'r penderfyniad, ac ym mhob achos, pa un a gynhaliwyd gwrandawiad ai peidio, rhaid cofnodi'r penderfyniad ar unwaith mewn dogfen y mae'n rhaid cynnwys ynddi neu fel atodiad iddi hefyd, ac eithrio mewn achos a benderfynir drwy gydsyniad, ddatganiad o'r rhesymau (mewn ffurf gryno) dros benderfyniad y panel tribiwnlys, a rhaid i ddogfen o'r fath gael ei llofnodi a'i dyddio gan y Cadeirydd.

(4) Ni chaiff penderfyniad a roddir ar lafar na'r ddogfen y cyfeirir ati ym mharagraff (3) gynnwys unrhyw gyfeiriad at wneud y penderfyniad drwy fwyafrif (os dyna a ddigwyddodd) nac at unrhyw farn lleiafrif.

(5) Rhaid cofnodi pob penderfyniad y panel tribiwnlys yn y Gofrestr.

(6) Rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys anfon copi o'r ddogfen y cyfeirir ati ym mharagraff (3), cyn gynted ag y bo'n ymarferol, at bob parti ynghyd â chanllawiau, mewn ffurf a gymeradwyir gan y Llywydd, ar yr amgylchiadau pan fo hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y panel tribiwnlys ac ar y weithdrefn sydd i'w dilyn.

(7) Pan fo rheoliadau 15(11)(a) neu 67(2) yn gymwys, rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys anfon copi o'r dogfennau y cyfeirir atynt ym mharagraff (6) at yr apelydd neu'r hawlydd yn ogystal ag at y cynrychiolydd neu'r cyfaill achos.

(8) Mae pob penderfyniad i'w drin fel pe bai wedi ei wneud ar y dyddiad yr anfonir copi o'r ddogfen sy'n ei gofnodi at yr apelydd neu'r hawlydd (pa un a gyhoeddwyd y penderfyniad yn gynharach ar ddiwedd y gwrandawiad ai peidio).